**LC119**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

LEGISLATION COMMITTEE Y PWYLLGOR DEDDFAU
REPORT ADRODDIAD

**Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cadwraeth y Gymuned) (Cymru) 2000**

**Y Cefndir**
Mae’r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau ar bysgota a fwriadwyd i ddiogelu adnoddau pysgodfeydd, fel y’u cynhwysir mewn Rheoliadau penodol gan yr UE.

Mae'r Gorchymyn hwn yn ymdrin â'r materion canlynol -

Creu tramgwyddau troseddol a phennu cosbau am dorri Rheoliadau perthnasol yr UE.

Casglu dirwyon.

Breinio pwerau mewn swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig.

Breinio pwerau ymchwilio a gorfodi mewn swyddogion eraill.

Diogelu swyddogion rhag atebolrwydd cyfreithiol a rhag cael eu rhwystro.

Derbynioldeb coflyfrau a dogfennau eraill fel tystiolaeth.

Mae darpariaeth i'r un perwyl wedi'i gwneud ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon yn O.S. 2000 Rhif 1081 a wnaed ar 4 Ebrill 2000 ac a ddaeth i rym ar 15 Mai 2000. Mae'r Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol wedi adrodd ynglŷn â phwynt drafftio diffygiol yn y Gorchymyn ar gyfer Lloegr/Gogledd Iwerddon, a chyfeirir at hyn isod.

## Rheol Sefydlog 11.5

Ar ôl cael cyfle i edrych ar ddrafft o'r Gorchymyn hwn, llwyddodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor i godi nifer o bwyntiau drafftio a gymerwyd i ystyriaeth yn y Gorchymyn a wnaed.

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi felly fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

## Sylwadau Cyffredinol

### Erthygl 4(4)

Mae erthygl 4 yn cyfateb i erthygl 4 o'r Gorchymyn a wnaed ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon. Er mwyn cymryd i ystyriaeth bwynt ynglŷn ag erthygl 4 y mae'r Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol wedi adrodd arno (20fed Adroddiad Sesiwn 1999-2000), mae erthygl 4(4) o'r Gorchymyn ar gyfer Cymru wedi rhoi'r geiriau "yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol" *("subject to the following provisions")* yn lle'r geiriau "subject to paragraph (6)" sy'n ymddangos yn y Gorchymyn ar gyfer Lloegr/Gogledd Iwerddon.

Serch hynny, awgrymir y byddai'r geiriad wedi bod ychydig yn gliriach pe bai wedi darllen –

> "yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr erthygl hon"

*Sylwer: Adroddiad drafft yw hwn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Deddfau ei ystyried.*

**M. German OBE AM**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

12 Medi 2000